# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2018/19

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Margaret Murley Roberts
**Parti:** Plaid Cymru **Ward:** Lligwy

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol: | Crynodeb o Bresenoldeb |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn (Is-Gadeirydd) | Manylion ar wefan y Cyngor: Presenoldeb |
| Panel Rhiantu Corfforaethol | |
| Pwyllgor Apeliadau | |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| Pwyllgor Grantiau Cyffredinol | |
| Pwyllgor Safonau - Panel Penodi | |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| Cwmni CYNNAL AGM<br><br>Llywodraethwr - Ysgol Gynradd Moelfre | Gweler:<br><br>Rwyf wedi mynychu bron pob cyfarfod o'r cyrff allanol hyn.<br><br>http://www.cynnal.co.uk/?lang=cy |

| | |
|---|---|
| Llywodraethwr - Ysgol Uwchradd Syr Thomas Jones, Amlwch<br><br>Pencampwr Amrywiaeth | https://www.ysgolsyrthomasjones.cymru/ |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Rwyf wedi canolbwyntio ar fynychu Cyngor Cymuned Moelfre lle rwyf yn darparu adroddiadau misol.

Rwyf hefyd wedi mynychu ambell gyfarfod o Gyngor Cymuned Pentraeth. Wedi bod yn falch o roi cymorth a chyngor i drigolion y ward.

Rwyf hefyd wedi bod ar gael unai dros y ffôn neu drwy ebost. Wedi helpu etholwyr a'u teuluoedd mewn gwahanol ffyrdd e.e:

Cynllunio: Wedi ymateb i geisiadau i gyfathrebu gyda'r Adran Gynllunio. Wedi siarad yn y Pwyllgor Cynllunio llawer gwaith unai o blaid neu yn erbyn cynlluniau.

Priffyrdd: Ceisiadau am osod cwteri a gor-yrru.

Eiddo: Cysylltu gyda'r Adran i holi am berygl drws gwt hen fad achub Moelfre.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fel aelod o'r Panel Sgrwtini rwyf wedi cael y fraint o gyfarfod nifer o benaethiaid ysgolion Môn a hefyd cadeiryddion a llywodraethwyr. Rwyf wedi dysgu llawer drwy'r flwyddyn. Rwyf wedi bod yn cysgodi GwE sydd yn cyfoethogi fy ngwybodaeth o Addysg.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListTraining.aspx?UID=288&RPID=500087422&LLL=1

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=288&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts** | **Mai 2019** |